CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN
COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
14 Hydref 2015 AM 7.00 O'R GLOCH YN NEUADD YR YSGOL

YN BRESENNOL
Cyng I Roberts, R G Parry, S Parry, D Michael, E Huws, N Highley, I Rowlands, C Ll Thomas

YMDDIHEURIADAU
Cyng A Michael, K Humphreys, D Rees (Cyngor Sir), N Roberts (Cyngor Sir)

Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts

Croesawyd Noela Jones, Prif Swyddog Tai Cynefin i siarad am y stad newydd yn y pentref. Dywedodd Ms Jones bod eu polisi yw gosod i pobol lleol yn dechrau gyda wardiau Cymunedau yn Gyntaf a bod y Cyngor Sir yn fodlon gyda'r polisi. Soniodd y Cadeirydd am y cwynion mae'r Cyngor wedi derbyn am dan y ffordd i'r safle. Cynigodd Ms Jones edrych i mewn i'r mater.

DATGAN DIDDORDEB - Dim

DERBYN COFNODION Y CYFARFOD 9 Medi 2015
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 9 Medi 2015, Cyng I Rowlands yn cynnig a Cyng N Highley yn eilio.

MATERION YN CODI O'R COFNODION
Ganmlwyddiant y Rhyfel Mawr - Mae'r Clerc yn disgwyl prisiau ychwanegol am y gwaith ar y gofeb.
Cysgodfan Bws (yswiriant) - Mae'r clerc wedi derbyn y taliad
Twnnel Helyg - Bydd y Clerc yn gofyn i Dee Walker twtio y tyfiant. Hefyd mae gan Cyng E Huws "bark" ar gael ar gyfer llawr y twneli
Cyfrif y Maes Chwarae - mewn llaw
Williams Homes Bala - Gweler uchod
Arwydd Bryngwran - mae rhan o'r gwaith wedi cael ei wneud, bydd y gweddill yn cael ei wneud wythnos nesaf
Mynwent Llanbeulan - Cynigodd Cyng I Rowlands cael golwg ar y lle wythnos nesaf.
Lon Salem - Mae'r Adran Priffyrdd am gwneud cynllun ac anfon copi i'r Clerc. O dan polisi yr Adran, ni fydd rampiau yn cael eu osod. Cynigodd Cyng E Huws cael gair gyda Mrs Powell, y Prifathrawes am plant yn rhedeg o Bro Mynydd ar draws Lon Salem heb edrych yw weld os yw'r ffordd yn glir
Torri gwair y fynwent newydd - mae'r gwair wedi cael ei dorri.

ADRODDIAD y CADEIRYDD
Bydd y Cadeirydd yn cyflwyno cais i "Groundwork" a gofynwyd i'r Clerc paratoi cais i Watkin Jones (Community Fund). Hefyd, dywedodd Cyng R G Parry bydd angen paratoi ar gyfer Anglesey Charitable Trust.

LLOFNOD (Cadeirydd) 9 Rhagfyr 2015

GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON
Cynllunio
16C102B/FR Cais llawn i godi adeilad ieir yn Gernant, Bryngwran - dim sylwadau
16C5B Cais llawn i addasu ac ehangu yn Groeslon, Ceirchiog - dim sylwadau
Ger y Bryn, Bryngwran - penderfyniad apêl (gwybodaeth yn unig)
Priffyrdd
Lon Salem (gweler uchod)

GOHEBIAETH YCHWANEGOL
Unllais Cymru - agenda y cyfarfod nesaf 22.10.15

MATERION ARIANNOL
Penderfyniwyd talu:
Costau y Clerc £105.52 - hefyd cyfraniad blynyddol £80.00 at costau lein ffôn a broadband y Clerc; Poppy Appeal (torch Sul y Cofio) £20.00

MATERION ERAILL
Penderfyniwyd symud dyddiad y cyfarfod nesaf i 18 Tachwedd 2015.
Soniodd Cyng I Rowlands am baw cwn o gwmpas y pentref. Cynigodd Cyng C Thomas hysbysebu yn y Rhwyd bod biniau ar gael yn y pentref

LLOFNOD (Cadeirydd) 9 Rhagfyr 2015